



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynllun Grantiau'r Trydydd Sector Diwygiedig – Drafft Ymgynghori (Gorffennaf 2026)



Cynnwys

1. [Cyflwyniad a statws y Cynllun](#)
2. [Pam mae'r Cynllun yn newid](#)
3. [Diben ac egwyddorion y cynllun](#)
4. [Model gweithredu: Grant Sefydlogrwydd 3+2 Flynedd](#)
5. [Blaenoriaethau strategol](#)
6. [Pwy all wneud cais](#)
7. [Beth fydd y Cynllun yn ei ariannu a beth na fydd yn ei ariannu](#)
8. [Meini prawf ariannol a rheolaethau ariannu](#)
9. [Sut y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu](#)
10. [Cytundebau, monitro ac adolygu grantiau](#)
11. [Cyfathrebu, adborth a chymorth](#)
12. [Llywodraethu, risg ac ystyriaethau statudol](#)



1. Cyflwyniad a statws y Cynllun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cynnig Cynllun Grantiau'r Trydydd Sector diwygiedig i'w weithredu o 1 Ebrill 2027. Datblygwyd y Cynllun yn dilyn adolygiad o Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector presennol, sef cyfranogiad ac ymgysylltiad â sefydliadau'r trydydd sector, Aelodau a swyddogion.

Dylid darllen y ddogfen hon fel drafft ymgynghori ac nid fel canllaw terfynol ar gyfer gwneud cais. Bydd ffurflenni cais manwl, methodoleg asesu, cwestiynau cyffredin a dogfennaeth cytundeb grant yn cael eu datblygu ar wahân.

2. Pam mae'r Cynllun yn newid

Cymeradwywyd y Cynllun presennol yn 2015. Cynhaliwyd adolygiad i sicrhau bod buddsoddiad y Cyngor yn y trydydd sector yn dryloyw, yn deg, yn gynaliadwy, yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac yn gallu dangos gwerth am arian.

Bwriad y Cynllun diwygiedig yw mynd i'r afael â materion a nodwyd drwy'r adolygiad a'r ymgysylltiad dilynol, gan gynnwys yr angen am bwrpas cliriach, sefydlogrwydd ariannu tymor hwy, meini prawf mwy tryloyw, cyfathrebu gwell a monitro cymesur.

3. Diben ac egwyddorion y cynllun

Diben arfaethedig y Cynllun diwygiedig yw darparu cymorth strategol, tymor hwy i sefydliadau cymwys y trydydd sector y mae eu gwaith yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor, yn cryfhau seilwaith cymunedol, yn lleihau anghydraddoldeb, yn gwella iechyd a llesiant, ac yn cefnogi atal.

Mae'r Cynllun arfaethedig wedi'i seilio ar bum egwyddor:

Egwyddor	Beth mae hyn yn ei olygu i'r Cynllun
Sefydlogrwydd	Prif bwrpas y Cynllun yw cyfrannu at gynaliadwyedd gweithrediad dyddiol sefydliadau trwy arian craidd am o leiaf dair blynedd fel egwyddor diofyn.
Aliniad strategol	Dylai gweithgarwch a ariennir fod yn gysylltiedig yn benodol â blaenoriaethau'r Cyngor a dylai gyfrannu at ddarlun cydlynol o ddarpariaeth ar draws y fwrdeistref.
Hygyrchedd	Dylai'r broses fod yn deg, yn syml ac yn gymesur, gyda disgwyliadau a meini prawf yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw.



Egwyddor	Beth mae hyn yn ei olygu i'r Cynllun
Ymgysylltiad ystyrlon a strwythuredig	Dylai sefydliadau dderbyn cyfathrebu ymatebol yn ystod y broses a chyfathrebu amserol a chyfrinachol am benderfyniadau, waeth beth fo'r canlyniad.
Adeiladu tuag at gynaliadwyedd	Dylai'r Cynllun helpu sefydliadau i arallgyfeirio incwm a lleihau dibyniaeth dros amser, yn hytrach na dim ond talu am fylchau ariannu uniongyrchol.

4. Model gweithredu: Grant Sefydlogrwydd 3+2 Flynedd

Y model gweithredu arfaethedig yw Grant Sefydlogrwydd 3+2 Flynedd. Mae hyn yn golygu dyfarniad tair blynedd i ddechrau, gyda'r opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd arall lle mae perfformiad a chydymffurfiaeth yn foddhaol a lle mae arian yn parhau i fod ar gael.

Mae'r model yn ymateb i flaenoriaeth allweddol y trydydd sector sef mwy o sefydlogrwydd ariannu hirdymor. Bwriedir iddo gefnogi cynllunio sefydliadol, cadw staff, cynaliadwyedd a'r gallu i sicrhau arian ychwanegol o ffynonellau eraill.

Nodwedd	Safle'r cynllun
Math o grant	Grant sefydlogrwydd yn canolbwyntio'n bennaf ar gostau craidd/rhedeg a chynaliadwyedd sefydliadol.
Hyd y dyfarniad	Dyfarniad tair blynedd cychwynnol gyda'r posibilrwydd o estyniad am ddwy flynedd, yn amodol ar adolygiad perfformiad.
Ffocws cost cymwys	Costau craidd/rhedeg, gyda darpariaeth gyfyngedig ar gyfer costau cyfalaf ac arloesedd lle mae'r rhain yn cryfhau darpariaeth a chynaliadwyedd.
Llwybr ymgeisio	Proses dau gam: Datganiad o Ddiddordeb ac yna cais llawn.



5. Blaenoriaethau strategol

Rhaid i ymgeiswyr ddangos aliniad clir ag o leiaf un o flaenoriaethau strategol y Cynllun. Gall ceisiadau alinio ag un, dwy neu'r tair blaenoriaeth lle mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni.

Blaenoriaeth	Teitl	Ffocws	Pwyslais nodedig
1	Sefydliadau Cymunedol Cryf a Chynaliadwy	Cefnogi sefydliadau cymunedol, canolfannau, grwpiau gwirfoddoli a hybiau lleol sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau hanfodol o fewn cymdogaeth neu gymuned.	Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y sefydliadau eu hunain a'r rhwydweithiau lleol maen nhw'n eu creu, yn hytrach na thargedu mater neu grŵp o bobl penodol.
2	Lleihau Anghydraddoldeb a Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed	Cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n wynebu'r anfantais fwyaf, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn, gofawyr, plant a theuluoedd, a phobl sy'n profi tlodi neu galedi ariannol.	Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar bwy sy'n cael eu cefnogi a'r rhwystrau neu'r anghydraddoldebau maen nhw'n eu profi.
3	Gwella Iechyd, Llesiant ac Atal	Cefnogi gweithgareddau a gwasanaethau sy'n helpu pobl i aros yn iach, yn gysylltiedig ac yn annibynnol, gan atal problemau rhag gwaethygu a throï'n argyfwng.	Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau: gwell iechyd a llesiant a llai o alw ar wasanaethau cyhoeddus.

6. Pwy all wneud cais

Cymhwysedd	Gofyniad
Math o sefydliad	Sefydliadau cyfansoddedig, dielw sy'n gweithredu yn y sector gwirfoddol, cymunedol neu fenter gymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rhaid i sefydliadau ddangos llywodraethu cadarn, trefniadau rheoli ariannol ac ymrwymiad i fudd cymunedol.
Isafswm hanes llwyddiant	Rhaid i ymgeiswyr fod â hanes gweithredu o ddwy flynedd o leiaf, gydag o leiaf blwyddyn o gyfrifon wedi'u cyflwyno.
Daearyddiaeth	Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, neu'n darparu gwasanaethau yn bennaf yng Nghastell-nedd Port Talbot.
Llywodraethu a chydymffurfio	Rhaid i ymgeiswyr allu dangos trefniadau diogelu, cydraddoldeb, rheolaeth ariannol a llywodraethu priodol sy'n gymesur â graddfa a natur eu gwaith.

7. Beth fydd y Cynllun yn ei ariannu a beth na fydd yn ei ariannu

Bwriad y Cynllun yw cefnogi cynaliadwyedd sefydliadol a chyflawni yn unol â'r blaenoriaethau strategol y Cyngor. Nid yw wedi'i fwriadu i ddod yn rhaglen ariannu eang, amlwrpas.

Gall y Cynllun gefnogi	Ni fydd y Cynllun yn cefnogi
Costau craidd/rhedeg megis staffio, costau sy'n gysylltiedig â safleoedd, cyfleustodau, yswiriant, costau rheoli a llywodraethu; costau cyfalaf cymesur lle maent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chynaliadwyedd tymor hwy; arloesedd lle mae'n cefnogi cynaliadwyedd gwell, cost is neu incwm uwch yn uniongyrchol; ac adferiad cost llawn lle mae cyllidebau'n adlewyrchu costau cyflawni gwirioneddol.	Costau ôl-weithredol; gweithgarwch gwleidyddol; gweithgarwch crefyddol yn unig; arian prosiect blwyddyn annibynnol; a chynigion arloesedd yn unig.



8. Meini prawf ariannol a rheolaethau ariannu

Mae'r Cynllun yn cynnwys rheolaethau ariannol i hyrwyddo gwerth am arian, lleihau gorddibyniaeth ar arian y Cyngor a chefnogi mynediad teg ar draws y gyllideb sydd ar gael.

Rheolaeth	Sefyllfa'r Cynllun Arfaethedig
Dyfarniad grant uchaf	Y grant uchaf arfaethedig yw £50,000 fesul sefydliad, y flwyddyn.
Cymhareb grant-i-incwm	Bydd dyfarniadau unigol yn cael eu capio ar 30% o incwm blyneddol cyfartalog sefydliad, wedi'i gyfrifo dros y tair blynedd ddiweddaraf.
Costau cyfalaf	Gall arian cyfalaf fod yn gymwys lle mae'n cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy yn uniongyrchol heb ychwanegu costau gwasanaethu sylweddol. Y gyfran uchaf arfaethedig o gyfanswm y dyfarniad y gellir ei defnyddio ar gyfer arian cyfalaf yw 20%.
Arloesedd	Gall ymgeiswyr gyflwyno achos dros arloesedd lle mae'n cefnogi cynaliadwyedd, yn cynyddu incwm neu'n lleihau cost yn uniongyrchol. Y gyfran uchaf arfaethedig o gyfanswm y dyfarniad ar gyfer arloesedd yw 20%.
Arian cyfatebol	Nid yw arian cyfatebol yn orfodol. Bydd unrhyw arian cyfatebol a nodir yn cael ei ystyried fel un o ystod o ffactorau yn ystod yr asesiad ac ni fydd, ynddo'i hun, yn pennu'r canlyniad.
Realaeth gyllidebol	Dylai cyllidebau adlewyrchu gwir gost y ddarpariaeth, gan gynnwys gorbenion a chostau rheoli priodol.



9. Sut y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu

Bydd y broses ymgeisio yn defnyddio sgorio wedi'i bwysoli. Ystyrir cymhwysedd yn gyntaf. Bydd ceisiadau sy'n llwyddo ar y cam cymhwysedd yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf ansawdd cyhoeddedig.

Cynigir, bydd y pwysoliad uchaf yn berthnasol i dystiolaeth o angen a gwerth ychwanegol, ac i iechyd a chapasiti ariannol. Bydd gan aliniad strategol a'r dull o ran canlyniadau bwysoliad canolig-uchel. Bydd llywodraethu a chynaliadwyedd yn dwyn pwysoliad canolig. Bydd tegwch daearyddol yn cael ei ystyried ar lefel ceisiadau unigol ac ar draws portffolio cyffredinol y dyfarniadau.

Maes asesu	Pwyslais dangosol	Yr hyn y bydd aseswyr yn chwilio amdano
Tystiolaeth o angen a gwerth ychwanegol	Uchaf	Tystiolaeth glir o angen lleol, cyfraniad penodol, gwerth am arian ac osgoi dyblygu.
Iechyd a chapasiti ariannol	Uchaf	Cyllideb realistig, gwydnwch ariannol, gallu i reoli'r grant a thystiolaeth o reolaethau cymesur.
Aliniad strategol a chanlyniadau	Canolig-uchel	Cyfraniad cryf at un neu fwy o flaenoriaethau strategol y Cynllun a chanlyniadau clir i drigolion neu gymunedau.
Llywodraethu a chynaliadwyedd	Canolig	Diogelu, cydraddoldeb, polisiau rheoli ariannol a dull credadwy o leihau dibyniaeth ar un ffrwd ariannu.
Tegwch daearyddol	Ystyriaeth o'r portffolio	Dosbarthiad cyffredinol arian ar draws Castell-nedd Port Talbot ac ystyriaeth o gymunedau heb ddigon o wasanaeth lle mae dystiolaeth yn cefnogi hyn.



10. Cytundebau, monitro ac adolygu grantiau

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i gytundeb grant. Bydd cytundebau grant yn nodi amodau ariannu, gofynion monitro, rhwymedigaethau adrodd, trefniadau adolygu a'r amgylchiadau y gellir amrywio, atal neu adennill arian.

Bydd trefniadau monitro ac adolygu perfformiad yn berthnasol drwy gydol y cyfnod ariannu. Cynhelir adolygiad ffurfiol cyn cytuno ar unrhyw estyniad dwy flynedd o dan y model 3+2. Dylai'r adolygiad ystyried cyflawniad yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt, cydymffurfiaeth ariannol, gofynion llywodraethu a diogelu, cynnydd o ran cynaliadwyedd ac unrhyw risgiau i gyflawniad neu arian cyhoeddus.

11. Cyfathrebu, adborth a chymorth

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi cyfathrebu cliriach a mwy strwythuredig gydag ymgeiswyr a sefydliadau a ariennir. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi meini prawf a disgwyliadau monitro ymlaen llaw, gan roi gwybodaeth i ymgeiswyr yn ystod y broses a darparu cyfathrebu cyfrinachol amserol am benderfyniadau.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn cyfathrebiad clir ynghylch canlyniad ei gais. Bydd trefniadau adborth yn cefnogi tryloywder ac yn helpu sefydliadau i ddeall sut y gwnaed penderfyniadau. Lle mae ceisiadau'n aflwyddiannus, bydd yr adborth yn gymesur ac yn adeiladol.

Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu tudalennau gwe, dogfennau cais, meini prawf a chanllawiau, Cwestiynau Cyffredin a llwybr pwrpasol ar gyfer ymholiadau fel rhan o gynllunio gweithredu.

12. Llywodraethu, risg ac ystyriaethau statudol

Mae'r Cynllun diwygiedig yn cyflwyno fframwaith tryloyw ar gyfer asesu, dyfarnu, monitro ac adolygu arian grant. Bwriad hyn yw cryfhau atebolrwydd a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a gwerth am arian.

Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu gan roi sylw dyledus i ddyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys dyletswyddau cydraddoldeb, Safonau'r Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnwys diogelu, cydraddoldeb, llywodraethu, rheolaeth ariannol a gofynion cyfreithiol perthnasol eraill. Cedwir cofnodion asesu a gwneud penderfyniadau i gefnogi atebolrwydd a lleihau'r risg o her.

Yr effaith (effeithiau) ar y Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o effaith a oedd yn cynnwys ystyriaeth o effaith bosibl y cynllun diwygiedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Daeth yr asesiad i'r casgliad y bydd effaith niwtral o ran y broses ymgeisio gan y bydd deunyddiau ymgeisio, canllawiau a chyfathrebu yn ddwyieithog, ac ni fydd ceisiadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg; gan sicrhau y gall ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg gymryd rhan a gwneud cais ar sail gyfartal.

Ar ben hynny, efallai y bydd effeithiau cadarnhaol os derbynnir ceisiadau llwyddiannus gan sefydliadau sy'n cefnogi gweithgarwch cymunedol, cynhwysiant, llesiant a mynediad at wasanaethau mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith neu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.



Bydd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebwyr i nodi unrhyw effaith (effeithiau) y maent yn eu rhagweld. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad, gan ystyried unrhyw adborth a dderbynnir am effeithiau posibl ar y Gymraeg neu gymunedau sy'n siarad Cymraeg.